Awst 2025

DESIGN
COMMISSION
FOR WALES
COMISIWN
DYLUNIO
CYMRU

# Cyflwyniad – Ysgrifennu Briff

Ymchwiliwyd, ysgrifennwyd a chyhoeddwyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru
dcfw.org.

Comisiwn Dylunio Cymru (DCFW Ltd) yw'r corff cynghori cenedlaethol sy'n hyrwyddo rhagoriaeth dylunio ar draws amgylchedd adeiledig Cymru, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu i wneud Cymru yn lle gwell i bawb. Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn gweithio gyda'r llywodraeth i ddatblygu polisïau, a gyda datblygwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat a gweithwyr proffesiynol yn yr amgylchedd adeiledig i ddarparu gwaith dylunio a chreu lleoedd o ansawdd uchel drwy gymorth i gleientiaid, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus, adolygu dyluniadau, datblygu polisïau, a chysylltiadau a gwaith ymchwil academaidd.

Mae fersiwn Saesneg o'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael i'w lwytho i lawr o wefan Comisiwn Dylunio Cymru: dcfw.org.

Lluniau: Mae'r holl ddiagramau wedi cael eu cynhyrchu gan neu ar ran Comisiwn Dylunio Cymru gyda chaniatâd i'w defnyddio yn y cyhoeddiad hwn.
Dylunio: www.theundercard.co.uk

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn gwmni cyfyngedig preifat (DCFW LTD), a ymgorfforwyd yn 2002 fel is-gwmni dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru.
Swyddfa gofrestredig: 4ydd llawr, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FL.
Ffôn: + 44 (0) 20 2045 1964
E: connect@dcfw.org

Hawlfraint © DCFW Ltd a'r awduron 2025

ISBN: 978-1-0681906-1-2

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| 1: Cyflwyniad | 4 |
| 2: Gwybodaeth am Friffiau Prosiect | 5 |
| 3: Cleientiaid | 8 |
| 4: Paratoi Briff y Prosiect | 11 |
| 5: Ysgrifennu Briff y Prosiect | 14 |
| 6: Penodi Tîm Ymgynghorol | 20 |
| 7: Casgliad | 22 |

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1: Astudiaethau achos** | |
| **Astudiaeth Achos 1:** Briff Uwchgynllun y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd | 24 |
| **Astudiaeth Achos 2:** Cyfnewidfa Drafnidiaeth Caerffili | 27 |
| **Astudiaeth Achos 3:** Cynllun Cyfarthfa | 31 |
| **Atodiad 2: Rhagor o waith darllen** | 35 |

# Rhagair

Paratoi briff prosiect yw un o gamau allweddol y broses ddylunio a all osod y llwybr ar gyfer ansawdd dylunio a chreu lleoedd da. Yng Nghomisiwn Dylunio Cymru (DCFW) ein profiad ni yn aml yw bod briff prosiect da yn gosod prosiect datblygu i fod yn llwyddiannus yn y camau cynharaf, tra gellir olrhain gwreiddiau prosiect sy'n ei chael hi'n anodd yn ôl i friff gwael a fethodd ddiffinio'r broblem yr oedd angen mynd i'r afael â hi, a arweiniodd at benodi tîm dylunio anaddas, neu nad oedd yn glir ynghylch yr hyn yr oedd ei angen.

Mae'r canllaw hwn wedi'i anelu at unrhyw un sy'n ymwneud â pharatoi briff prosiect i unrhyw brosiect sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig. Mae'n ymdrin â'r camau sy'n gysylltiedig â pharatoi deunydd ar gyfer y briff yn ogystal â'i gyflwyno'n glir. Bydd pob un o'r rhain yn cyfrannu at lwyddiant y briff fel rhan o'r broses ddylunio, a dylai arwain at ganlyniadau dylunio gwell.

Mae'r canllaw yn gyffredinol i gwmpasu unrhyw brosiect amgylchedd adeiledig, ond mae cleientiaid y sector cyhoeddus yn ffocws penodol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwerth cyhoeddus o ganlyniad i brosiectau a ariennir gan arian cyhoeddus. Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn cynnig gwasanaethau cymorth i gleientiaid, gan gynnwys helpu i ddatblygu briff prosiect. Mae croeso i chi gysylltu â ni drwy anfon neges e-bost at connect@dcfw.org os hoffech gael rhagor o wybodaeth.

# 1 Cyflwyniad

Mae ysgrifennu briff prosiect da yn gam cynnar hanfodol tuag at gyflawni prosiectau llwyddiannus sydd wedi'u cynllunio'n dda a chreu lleoedd gwych. Mae'r canllaw byr hwn yn cyflwyno cyfres o awgrymiadau ac ystyriaethau allweddol i gleientiaid i helpu i ddatblygu briffiau prosiect da. Nid yw'n archwiliad cynhwysfawr o'r pwnc, ond yn hytrach yn grynodeb o'r materion a'r technegau allweddol i wneud briffiau prosiect yn ysbrydoledig, yn llawn gwybodaeth ac yn ddefnyddiol.

Mae cleientiaid yn paratoi briffiau prosiect ar gyfer sawl math o brosiect, gan gynnwys astudiaethau dichonoldeb a datblygu strategaeth, mentrau adfywio, tir y cyhoedd a phrosiectau datblygu adeiladau ar gyfer sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'r canllaw hwn yn rhoi arweiniad cyffredinol sy'n berthnasol i unrhyw un o'r mathau hyn o brosiectau. Mae'n canolbwyntio ar y themâu a'r ystyriaethau cyffredin hanfodol y rhoddir sylw iddynt ym mhob briff prosiect. Bydd y canllaw hwn yn sicrhau ei fod yn cynnwys popeth sydd ei angen i osod y prosiect ar lwybr tuag at ganlyniad llwyddiannus.

Yn gryno, bydd briff prosiect da yn cynnwys y pethau canlynol:

- Disgrifio anghenion y cleient yn glir
- Cynnwys disgrifiad o ofynion y defnyddwyr
- Crynhoi anghenion rhanddeiliaid
- Pennu'r amodau ar gyfer penodi'r tîm dylunio cywir
- Ysbrydoli dyluniad ateb cain a phriodol i anghenion y cleient
- Sicrhau bod y prosiect yn rhoi sylw llawn i holl anghenion y cleient
- Ysbrydoli a llywio atebion arloesol i broblemau newydd
- Osgoi gwastraffu ymdrech, adnoddau a chyllidebau
- Arbed amser yn ystod oes y prosiect
- Dyrannu adnoddau'n briodol ar gyfer y canlyniadau mwyaf effeithiol
- Darparu data prosiect cyfeirio i adolygu ac archwilio prosiectau gwrthrychol a goddrychol ar gamau dylunio allweddol.

**Sicrhau bod y briff yn cynnwys popeth sydd ei angen i osod y prosiect ar lwybr tuag at ganlyniad llwyddiannus**

## 2 Gwybodaeth am Friffiau Prosiect

Mae'r adran hon yn trafod yn fyr ddiben briffiau prosiect a pham eu bod yn hanfodol i gyflawni prosiectau llwyddiannus.

### Ffig 1: Y Broses Newid




Mae briff y prosiect yn gam allweddol yn y broses newid. Dyma'r cyswllt hanfodol rhwng mynegi anghenion prosiectau a darganfod strategaethau cynllunio a dylunio sy'n arwain at weithredu a defnyddio prosiectau.

Mae'r gwahanol fathau o brosiectau a grybwyllir yn y cyflwyniad i gyd yn rhannu gofyniad cyffredin i sicrhau newid pwrpasol ar ryw ffurf. Gofyniad hanfodol pob briff prosiect yw nodi'r newid sydd ei angen a'r cyfyngiadau ar gyfer gwireddu'r prosiect. Briff y prosiect yw cam rhagarweiniol proses newid sy'n cysylltu anghenion y prosiect â chamau cynllunio a gweithredu'r prosiect. Gellir disgrifio'r broses newid hon, sy'n cysylltu anghenion â'r ddarpariaeth, hefyd fel proses ddylunio.

## 2.1 Beth yw Briff Prosiect?


Dylai briff y prosiect gynnig man cychwyn ysbrydoledig ar gyfer dylunio, a dogfen gyfeirio allweddol i asesu perthnasedd ac apêl opsiynau a chynigion wrth iddynt gael eu cynhyrchu yn ystod y broses ddylunio.

Unwaith y bydd yr angen am ryw fath o newid wedi'i sefydlu, bydd y briff yn amlinellu'r hyn y bydd yr ymyriad hwnnw'n ei gynnwys, ei baramedrau a phwy sydd angen gwneud beth i sicrhau'r newid. Mae briff y prosiect yn rhoi dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sydd ei angen ar holl gyfranogwyr a rhanddeiliaid y prosiect.

## 2.2 Pam mae Briff Prosiect yn Bwysig?

Mae paratoi briff prosiect trwyadl ac ysbrydoledig yn gam cyntaf hanfodol er mwyn gwireddu prosiect llwyddiannus. Mae'r cam datblygu'r briff yn cynnig y cyfle gorau i effeithio ar ansawdd prosiect am y gost isaf. Wrth i'r prosiect ddatblygu, bydd y cyfle i wella ansawdd y canlyniad yn lleihau wrth i'r prosiect symud ymlaen o'r cam cynllunio i'r cam cyflawni ac wrth i gostau'r prosiect gynyddu.

### Ffig 2: Effaith Cost ac Ansawdd



Yn aml, gellir olrhain canlyniadau prosiect o ansawdd gwael i broblemau gyda'r briff. Efallai fod yr angen wedi'i ddiffinio'n wael yn y lle cyntaf, felly gofynnwyd y cwestiwn anghywir i'r tîm dylunio, neu efallai nad oedd gofynion y cleient wedi'u nodi'n ddigon clir, gan arwain at orfod gwneud gwaith ychwanegol a mynd y tu hwnt i'r gyllideb, neu efallai nad oedd yn glir pwy oedd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau a achosodd oedi gyda'r prosiect. Gellir goresgyn y materion hyn a llawer o fethiannau eraill o ran cyflawni prosiectau drwy dreulio digon o amser yn paratoi briff prosiect da.

Mae llawer o brosiectau, yn enwedig y rheini yn yr amgylchedd adeiledig, yn gymhleth ac yn galw am gyflawni nifer o nodau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Maent yn effeithio ar lawer o bobl am gyfnodau hir, yn defnyddio llawer iawn o adnoddau prin ac yn gofyn am lawer o gyllid buddsoddi preifat a chyhoeddus. Heb roi digon o sylw i'r cwestiynau a ofynnir i dimau dylunio fel y nodir ym mriff y prosiect, mae'n annhebygol y bydd gweledigaeth ac amcanion y prosiect yn cael eu cyflawni.

Gellir diffinio ansawdd prosiect fel sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng:

- **Effeithlonrwydd** – gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau.
- **Effeithiolrwydd** – cyflawni canlyniad prosiect sy'n bodloni holl ofynion y cleient yn gain.
- **Mynegiant** – cyflawni prosiect sy'n mynegi gwerthoedd, diwylliant a phwrpas y prosiect yn briodol.

Mae paratoi briff prosiect trylwyr yn caniatáu rhoi ystyriaeth gynnar i'r materion hyn i sicrhau eu bod yn cael sylw digonol yn ystod y camau dylunio a chyflawni prosiect dilynol.


Mae briffio prosiectau yn arbennig o bwysig mewn ymateb i ddeddfwriaeth yng Nghymru, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n mynnu'n benodol bod prosiectau dylunio yn arloesol ac yn cynnig manteision amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol amlwg i genedlaethau'r dyfodol. Mae syniadau newydd sydd wedi'u hymgorffori mewn briffiau prosiect arloesol yn hanfodol er mwyn cyflawni'r canlyniadau pellgyrhaeddol hyn.

Bydd briff sydd wedi'i baratoi'n dda yn cyfleu gofynion prosiect y cleient yn glir a, thrwy nodi'n benodol y gofynion ar gyfer canlyniad prosiect llwyddiannus, yn darparu fframwaith ar gyfer asesu'r opsiynau dylunio wrth iddynt gael eu datblygu drwy'r broses ddylunio.

## 3 Cleientiaid

Mae'r adran hon yn disgrifio'r rolau a'r berthynas rhwng cleient y prosiect, defnyddwyr y prosiect, a rhanddeiliaid y prosiect, a bydd pob un ohonynt yn cyfrannu cynnwys i'w ymgorffori ym mriff y prosiect.

### Ffig 3: Rôl y Cleient




Mae gan gleientiaid rôl ganolog yn y broses o ysgrifennu briff er mwyn cyfleu anghenion defnyddwyr a rhanddeiliaid y prosiect a sicrhau bod tîm dylunio'r prosiect yn diwallu eu gofynion yn llawn.

## 3.1 Rôl Cleient y Prosiect

Mae prosiectau gwych yn dibynnu ar gleientiaid trefnus a gwybodus sy'n arwain pob agwedd ar y prosiect o'r dechrau i'r diwedd. Mewn rhai achosion, unigolyn fydd hwn, ond yn amlach na pheidio, mae tîm cleientiaid sy'n cynnwys sawl aelod o sefydliad. Bydd angen i'r cleient neu dîm y cleient (y cyfeirir ato yma fel y cleient) gydlynu ac ymgorffori'r mewnbynnau gan nifer o bobl, datrys gofynion sy'n gwrthdaro, ac yn y pen draw cymryd perchnogaeth lawn o friff terfynol y prosiect.

Dylai tîm effeithiol o gleientiaid feddu ar y sgiliau canlynol:

- Nodi a diffinio problemau
- Llunio strategaeth
- Cyfathrebu ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd
- Rheoli tîm amrywiol o weithwyr proffesiynol
- Rheolaeth ariannol
- Rheoli Prosiectau
- Rheoli contractau (er y gall hyn gynnwys cymorth ymgynghorwyr arbenigol).

Wrth gyflawni'r rolau heriol hyn, gall cleientiaid ddefnyddio gwasanaethau rheolwyr prosiect, penseiri, peirianwyr, syrfewyr a gweithwyr proffesiynol eraill. Ni waeth pa mor amrywiol a medrus yw'r gweithwyr proffesiynol ategol hyn, eu rôl yw cynorthwyo cleientiaid i reoli'r prosiect. Fodd bynnag, cleient y prosiect sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth. Mae briff y prosiect yn ddogfen gyfeirio hanfodol er mwyn i'r cleient reoli ac arwain prosiectau.

**Mae prosiectau gwych yn dibynnu ar gleientiaid trefnus a gwybodus**

## 3.2 Defnyddwyr

Anaml iawn y mae cleientiaid yn ddefnyddwyr y lleoedd, yr amgylcheddau a'r adeiladau y maent yn eu creu. Dylai briff y prosiect ystyried yn llawn anghenion y defnyddiwr y mae'n rhaid i'r prosiect eu diwallu. Mae'n bosibl y bydd deall yr anghenion hyn yn gofyn am ymgysylltu cynnar a pharhaus â defnyddwyr, dysgu o brosiectau blaenorol a gwaith ymchwil manylach.

## 3.3 Rhanddeiliaid


Mae'r term 'rhanddeiliaid' yn derm cyffredinol ar gyfer grŵp amrywiol y tu hwnt i'r tîm cleientiaid a'r defnyddwyr y mae'r prosiect yn effeithio arnynt. Po fwyaf yw'r prosiect, mwyaf helaeth a chymhleth fydd y grŵp hwn. Dylai dull o ddysgu gan randdeiliaid a'u cynnwys yn y broses fod yn rhan o ddatblygiad y briff fel dechrau proses ymgysylltu barhaus drwy gydol y prosiect. Dylai briff y prosiect grynhoi gofynion y rhanddeiliaid a bennwyd yn ystod yr ymgynghoriad cynnar.

**'Mae'r broses briffio yn hanfodol i ddiffinio anghenion a disgwyliadau'r Cleient, ac mae angen digon o amser i'w chwblhau ar y cyd â'r holl bartïon perthnasol.'** Get it Right Initiative

# 4 Paratoi Briff y Prosiect

Mae'r adran hon yn amlinellu'r gwaith cychwynnol sydd ei angen cyn dechrau ysgrifennu briff y prosiect.

## Ffig 4: Sesiwn Holi ac Ateb




**Canlyniadau**

| | |
|---|---|
| **1** | Ateb anghywir cwestiwn cywir |
| **2** | **Cwestiwn cywir ateb cywir** |
| **3** | Ateb anghywir cwestiwn anghywir |
| **4** | Ateb cywir cwestiwn anghywir |

Dylai pob prosiect anelu at roi'r ateb cywir i'r cwestiwn cywir. Os nad oes cwestiwn cywir wedi'i fynegi'n glir, mae'n annhebygol y deuir o hyd i'r ateb cywir.

### 4.1 Diffinio'r broblem

Cyn drafftio briff y prosiect, mae'n bwysig treulio digon o amser yn diffinio'n glir yr anghenion y mae'n rhaid i'r prosiect eu diwallu, y broblem y mae'r prosiect yn ceisio mynd i'r afael â hi, y cwestiwn y dylai ei ateb, neu'r newid y mae'n ceisio ei gyflawni.

Os gofynnir y cwestiwn anghywir yn y briff, er gwaethaf buddsoddi amser, talent greadigol ac adnoddau, mae'n anochel mai'r canlyniad fydd rhoi'r ateb anghywir. Bydd paratoi briff prosiect cadarn yn sicrhau bod y broses gynllunio a chyflawni yn arwain at ddod o hyd i'r ateb **cywir** i'r cwestiwn **cywir**.

Bydd archwiliad llawn o'r mater dan sylw, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, yn helpu i

ddatgelu'r cwestiwn nad yw efallai'n amlwg ar unwaith. Dylid hefyd ystyried a ellid mynd i'r afael â mwy nag un problem drwy'r prosiect.

## 4.2 Gwaith Ymchwil i Lywio'r Briff

Rhaid i'r cleient ddeall beth y mae arno ei eisiau ar ddiwedd y prosiect. Anaml iawn y mae prosiect yn union yr un fath ag un a gyflawnwyd yn flaenorol, ac felly mae gwaith ymchwil yn bwysig i lywio briff y prosiect. Os oes bylchau yn nealltwriaeth y cleient o'i brosiect, dylid mynd i'r afael â'r rhain drwy waith ymchwil fel rhan o broses ysgrifennu briff y prosiect. Gall ymchwil gynnwys adolygiadau o brosiectau cynsail, adborth gan ymgynghorwyr prosiect a chleientiaid blaenorol, ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddwyr, neu ymchwil bwrpasol a gomisiynwyd.

Bydd adolygu safleoedd, adeiladau neu brosiectau cynsail perthnasol yn helpu i lywio dealltwriaeth y cleient o ofynion ei brosiect. Yn ddelfrydol, dylid ymweld â phrosiectau blaenorol a'u trafod gyda chleientiaid prosiect neu dimau dylunio. Gellir dyfynnu cynseiliau yn y briff, ond dylid ei gwneud yn glir pa agweddau ar y prosiect cynsail sy'n cael eu hamlygu'n berthnasol.

Dylai'r holl ymchwil a wneir yn natblygiad y briff gyfrannu at y gwaith o baratoi briff y prosiect.

## 4.3 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid


Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn nodwedd hanfodol o bron pob prosiect. Bydd faint o ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd ei angen ar gyfer prosiectau unigol yn dibynnu ar faint y prosiect a'i botensial i effeithio ar unigolion a grwpiau y tu hwnt i ffin uniongyrchol y prosiect.

Yn gyffredinol, bydd ymgysylltu'n dilyn tri cham allweddol:

i. Ymgysylltu yn ystod datblygiad y briff - gan gynnwys gyda rhanddeiliaid a defnyddwyr i lywio'r briff.
ii. Ymgysylltu cychwynnol â phrosiectau i ddeall y sefyllfa, yr anghenion a'r cyfleoedd presennol.
iii. Ymgysylltu ar ddatblygu dyluniadau - i gael adborth ar gynigion wrth iddynt gael eu datblygu. Efallai y bydd sawl rownd o ymgysylltu yn ystod y cam hwn o'r prosiect.

Dylid dilyn arferion gorau o ran cynnwys ac ymgysylltu â'r gymuned, ond nid yw hyn yn cael ei drafod yn fanwl yma. Bydd angen sefydlu proses ymgynghori fanwl yn gynnar wrth gynllunio prosiect ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau. Rhaid i'r broses fod yn ystyrlon ac wedi'i strwythuro i lywio'r gwaith o gynllunio, dylunio, cyflawni a chanlyniadau'r prosiect. Dylai ansawdd y cyfathrebu, y trafod a'r digwyddiadau fynd y tu hwnt i ymgynghori'n unig i ennyn ymgysylltiad y gymuned â'r prosiect. Bydd proses ymgysylltu drylwyr yn sicrhau cyfathrebu agored a chywir am y prosiect, yn cysoni gwrthdaro ac, o bosibl, yn lleihau gwrthwynebiadau drwy sicrhau bod y prosiect yn diwallu anghenion defnyddwyr a disgwyliadau rhanddeiliaid. Ar ei orau, bydd y broses ymgynghori yn cynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o gyd-greu'r canlyniad dylunio. Bydd faint o gyd-greu prosiect sy'n bosibl yn amrywio yn dibynnu ar natur y prosiect.

## Ffig 5: Camau Briffio




Anaml iawn y bydd gan brosiectau cymhleth bob agwedd ar y briff wedi'u diffinio'n llawn ar y dechrau. Mae'r briffio wedyn yn mynd rhagddo fel deialog greadigol ddilyniannol rhwng y cleient a'r tîm cynllunio/dylunio wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Mae dogfennu a chymeradwyo'r broses ar bob cam yn hanfodol i lwyddiant y prosiect.

### 4.4 Proses Briffio Dilyniannol

Ychydig iawn o gleientiaid sy'n gallu rhoi pob manylyn technegol am ofynion eu prosiect i'r tîm dylunio ar ddechrau'r broses ddylunio. Mae'r broses fel arfer yn mynd rhagddi fel deialog weithredol a chreadigol rhwng y cleient a'r tîm dylunio ymgynghorol, gyda chyfnodau bob yn ail o ddatblygu dyluniadau ac opsiynau'n cael eu hystyried, ac yna datblygu briffiau ychwanegol, mwy manwl, technegol a swyddogaethol. Bydd deall ble mae prosiect yn ystod y broses yn helpu i lywio pa lefel o fanylion briffio sydd eu hangen ar bob cam. Gall y prosiect fynd rhagddo fel proses barhaus lle mae'r briff yn esblygu mewn deialog gydag un tîm dylunio. Fel arall, gellir rhannu'r prosiect yn sawl cam gwaith ar wahân, pob un â briff gwahanol a thimau dylunio gwahanol o bosibl ar bob cam. Beth bynnag fo'r broses, rhaid i friff y prosiect gael ei gymeradwyo'n llawn gan y cleient cyn dechrau pob cam o broses y prosiect.


# 5 Ysgrifennu Briff y Prosiect

Mae'r adran hon yn disgrifio'r broses ysgrifennu'r briff ac yn crynhoi prif elfennau cynnwys briff prosiect llwyddiannus.

## 5.1 Casglu ac Adolygu Gwybodaeth

Dylid casglu ac adolygu gwybodaeth a gasglwyd gan y tîm cleientiaid, ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid a defnyddwyr, a gwaith ymchwil. Bydd angen dehongli'r wybodaeth a gesglir o'r ymrwymiadau hyn er mwyn mynd at wraidd y broblem y mae'r prosiect yn ceisio ei datrys, llywio unrhyw safbwyntiau sy'n gwrthdaro, a diffinio gofynion cleientiaid yn glir. Dylid crynhoi'r wybodaeth gefndir berthnasol yn gryno a'i chynnwys fel deunydd cyfeirio sy'n cyd-fynd â'r briff.

## Ffig 6: Elfennau'r Briff




Mae briff y prosiect yn gasgliad o bob agwedd ar ofynion y prosiect y mae angen i'r tîm cynllunio/dylunio ymateb iddynt wrth lunio cynigion ar gyfer newid. Mae hefyd yn darparu pwynt cyfeirio ar gyfer asesu cynigion wrth iddynt gael eu datblygu fesul cam drwy'r broses newid.

## 5.2 Paratoi a Llenwi Strwythur Dogfennau

Bydd cynnwys briff yn amrywio yn dibynnu ar y math o brosiect a nodau'r prosiect. Fodd bynnag, mae rhai elfennau cyffredin y dylai'r rhan fwyaf o friffiau prosiectau roi sylw iddynt. Dylai'r cleient nodi adrannau perthnasol y ddogfen a chyflwyno cynnwys cryno ond cynhwysfawr ar gyfer pob adran. Gellir defnyddio'r rhestr ganlynol fel man cychwyn, ond dylid ei theilwra i gyd-fynd â'r prosiect.

**A. Crynodeb**

— Crynodeb yn disgrifio'r prosiect i'r holl randdeiliaid ac yn helpu timau ymgynghorol i benderfynu'n gyflym pa mor addas ydynt i gymryd rhan yn y prosiect.

**B. Gweledigaeth**

— Datganiad o'r uchelgeisiau lefel uchel y mae'n rhaid i'r prosiect eu cyflawni.

**C. Amcanion**

— Datganiad o amcanion y prosiect.

— Gofynion y cynllun busnes.

— Amcanion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

**D. Paramedrau, Adnoddau a Chyfyngiadau**

Datganiad cryno o gyfyngiadau mawr y prosiect, gan gynnwys:

— Cyllideb y prosiect

— Dyddiadau cau allweddol ar gyfer prosiectau

— Ffynonellau cyllido a gofynion

— Cyfyngiadau hysbys yn deillio o'r safle a'i leoliad

— Adnoddau y bydd y cleient yn eu defnyddio i gyflawni'r prosiect

— Camau disgwyliedig y prosiect, cyfarfodydd cleientiaid a'r broses gymeradwyo.

**E. Ystyriaethau creu lleoedd**

— Trosolwg o'r cyd-destun economaidd a diwylliannol y bydd y prosiect yn ymateb iddo

— Trosolwg cryno o leoliad a safle'r prosiect

— Cyfyngiadau'r prosiect oherwydd cyd-destun y safle

— Adolygiad cryno o berthynas y prosiect â'r gymuned gyfagos

— Dadansoddiad hanesyddol o'r safle sy'n disgrifio sut mae'r safle a'r lleoliad wedi datblygu dros amser

- Ystyried defnydd dros dro o'r safle ac unrhyw strwythurau adeiledig y gellid eu hystyried yn ystod cam interim cyn i'r prif ddatblygiad gael ei wireddu.

Os nad yw'r wybodaeth hon yn hysbys neu os nad yw ar gael, dylid cynnwys y gofyniad i'w darparu yn y briff.

**F. Gofynion Defnyddwyr a Rhanddeiliaid**

- Datganiad o anghenion defnyddwyr
- Crynodeb o ganfyddiadau gwaith ymchwil defnyddwyr
- Crynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid
- Cyfeiriad at ganfyddiadau llawn y broses ymgynghori â rhanddeiliaid
- Gofyniad i ddiweddaru gofynion rhanddeiliaid o bryd i'w gilydd, sy'n deillio o ymgysylltu'n fanylach â rhanddeiliaid yn ystod y broses ddylunio a datblygu.

**G. Canfyddiadau Ymchwil**

Gall prosiectau cymhleth ac arloesol ofyn am waith ymchwil, er enghraifft i brosiectau cynsail, i fod yn rhan o'r broses ysgrifennu briff. Dylai briff y prosiect gynnwys:

- Crynodeb o ganfyddiadau'r ymchwil
- Cyfeiriadau at y dogfennau ymchwil llawn.

**H. Briff swyddogaethol**

Datganiad o anghenion swyddogaethol i'w ddarparu gan y prosiect. Bydd y rhain yn amrywio yn ôl y math o brosiect ond gallant gynnwys:

- Datganiad o angen
- Arwynebedd llawr a swyddogaethau
- Targedau effeithlonrwydd
- Angen am hyblygrwydd a newid yn y dyfodol
- Targedau niferoedd
- Targedau denu ymwelwyr
- Logisteg a gwasanaethu
- Diogelwch
- Mynediad arbenigol
- Cynnal a Chadw
- Cydymffurfio â'r rheoliadau
- Safonau technegol i'w cyflawni
- Safonau wedi'u dilysu'n annibynnol i'w dilyn a'r lefelau cydymffurfio sylfaenol i'w cyflawni.

**I. Briff Cost ac Ansawdd**

Mae pob prosiect yn gofyn am gydbwysedd rhwng ansawdd y dyluniad a'r canlyniad adeiladu a'r adnoddau sydd ar gael i fodloni'r safonau ansawdd hyn. Fel ceidwad cyllideb y prosiect, dim ond cleient y prosiect all wneud y penderfyniad priodol ynghylch lle dylai'r cydbwysedd cywir fod rhwng y gofynion prosiect hyn sy'n cystadlu â'i gilydd. Mae'n bosibl y bydd y tîm ymgynghorol yn cynghori ar opsiynau. Fodd bynnag, mae'r dewis opsiwn terfynol yn aros gyda'r cleient. Dylai briff y prosiect gynnwys sylwadau ynghylch sut y mae'r cleient yn bwriadu negodi'r cydbwysedd rhwng ansawdd a chost.

**J. Mesur llwyddiant**

Bydd y briff yn diffinio canlyniadau'r prosiect ac yn darparu datganiad o'r metrigau i'w defnyddio wrth asesu llwyddiant canlyniad y prosiect. Gallai'r rhain gynnwys:

- Cyflwyno safonau gofod
- Cyflawni'r cydbwysedd cost ac ansawdd fel y'i diffinnir gan y briff
- Darparu (neu ragori) safonau technegol
- Canlyniadau cymdeithasol
- Canlyniadau economaidd
- Canlyniadau amgylcheddol
- Canlyniadau diwylliannol.

## 5.3 Briffio Ymgynghorol

Gellir naill ai cynnwys Adrannau I, J a K briff y prosiect ym mhrif gorff y ddogfen neu eu paratoi fel ail adran ar wahân. Ar gyfer prosiectau syml, mae un ddogfen yn ddigon. Efallai y bydd angen briffiau technegol a pherfformiad ar wahân ar gyfer pob aelod o'r tîm ymgynghorol ar gyfer prosiectau cymhleth mawr. Ar gyfer y mathau hyn o brosiectau, argymhellir briff prosiect dwy ran, gyda Rhan Un yn disgrifio cwmpas cyffredinol y prosiect, a Rhan Dau yn disgrifio'r gwasanaethau ymgynghorol sydd eu hangen.

**K. Briff Technegol**

Datganiad o'r meini prawf perfformiad technegol i'w cyflawni gan y prosiect, gan gynnwys:

- Angen ymchwil ymgynghorol
- Angen nodi a dadansoddi cyfyngiadau'r prosiect
- Safonau amgylcheddol
- Polisïau i gydymffurfio â nhw
- Gwydnwch a bywyd dylunio
- Perfformiad ynni
- Cyfyngiadau a thargedau cadwraeth natur
- Gofynion briff adeiladu.

**L. Allbynnau/ Canlyniadau**

- Crynodeb o'r allbynnau disgwyliedig o'r comisiwn ymgynghorol fel dogfennau, adroddiadau, lluniadau, cyfathrebu, deunyddiau ymgynghori ac ati.

**M. Gofynion y Tendr**

Disgrifiad llawn o ymatebion tendr y tîm ymgynghorol, gan gynnwys:

- Gofynion allweddol tîm y prosiect gan gynnwys sgiliau penodol, er enghraifft ymgynghorydd costau, arbenigwr ymgysylltu, pensaer tirlunio
- Y gofyniad am arweinyddiaeth y tîm ymgynghorol
- Trefniadaeth a strwythur y tîm
- Y dyddiad olaf i gyflwyno ymateb
- Gwybodaeth sydd ei hangen yn y cyflwyniad
- Y ffi sydd ar gael ar gyfer y prosiect.

Os oes adran gaffael yn rhan o'r broses, mae hwn yn faes allweddol ar gyfer ymgysylltu â'r swyddog perthnasol.

## Gall buddsoddi mewn dylunio graffeg helpu i gyflwyno gwybodaeth friffio yn glir ac yn gywir.

### 5.4 Adolygu a Chyflwyno'r Briff

Fel rhan o'r broses drafftio briffiau, mae'n hanfodol dosbarthu drafftiau cynnar i aelodau'r tîm cleientiaid a rhanddeiliaid allweddol eraill i'w hadolygu i sicrhau cywirdeb a thrylwyredd gwybodaeth a'i bod yn hawdd ei darllen a'i deall.

Os oes cyllideb ar gael, gall buddsoddi mewn dylunio graffeg helpu i gyflwyno gwybodaeth friffio yn glir ac yn gywir. Po gliriaf yw'r briff, y mwyaf tebygol ydyw o ddenu nifer uchel o gynigwyr tîm dylunio sydd â chymwysterau da ac iddynt ymateb yn briodol.

**Ffig 7: Rôl y Briff**




■ Mae paratoi briff y prosiect yn broses greadigol sy'n gofyn am waith ymchwil a dadansoddi gofalus i fynegi anghenion defnyddwyr yn glir a diffinio canlyniadau gofynnol y prosiect i'w cyflawni drwy gynllunio a dylunio.

# 6 Penodi Tîm Ymgynghorol

Ar ôl paratoi briff y prosiect, y cam nesaf wrth gyflawni prosiect llwyddiannus yw dewis a phenodi tîm ymgynghorol yn ofalus i gynorthwyo'r cleient gyda'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r prosiect. Dylai'r broses o baratoi briff y prosiect helpu i egluro'r math o gefnogaeth ymgynghorol sydd ei hangen a chwmpas y gefnogaeth honno.

Mae'n bwysig pwysleisio'r gwahaniaethau rhwng briff y prosiect a'r briff penodi'r tîm ymgynghorol. Dylai briff y prosiect ganolbwyntio ar ddisgrifio'n gryno bob agwedd ar brosiect y cleient, gan gynnwys yr eitemau a drafodwyd uchod. Dylai briff penodi'r tîm ymgynghorol ddisgrifio'n glir y gwasanaethau sydd eu hangen gan y cynghorydd ymgynghorol wrth wireddu amcanion a chanlyniadau briff y prosiect.

Yn ogystal â briff y prosiect, bydd y cleient yn gofyn bod briffiau ymgynghorol yn cael eu paratoi sy'n rhoi manylion y berthynas gontractiol rhwng y cleient a phob aelod o'r tîm ymgynghorol. Dylid paratoi briff y prosiect a briff(iau) ymgynghorol fel dogfennau cysylltiedig ond ar wahân.

## 6.1 Marchnata'r Cyfle

Bydd paratoi Briff y Prosiect yn rhoi gwybodaeth glir i'r cleient am bob agwedd ar y prosiect a'r sgiliau sydd eu hangen gan dîm ymgynghorol i roi cyngor ar ddylunio, manyleb dechnegol ac adeiladu fel sy'n berthnasol.

Dylai'r broses benodi anelu at ddewis y tîm gorau i helpu i wireddu amcanion briff y prosiect o fewn y gyllideb sydd ar gael. Ar gyfer prosiectau ar raddfa fawr, uchelgeisiol neu arloesol, yn aml bydd angen timau ymgynghorol arbenigol, nad ydynt fel arfer yn cael eu cynnwys mewn rhestrau ymgynghorol ar gytundebau fframwaith.

Mae cyhoeddi'r briff i'r farchnad yn gyfle allweddol i ddenu'r timau ymgynghorol gorau a dylai anelu at gyrraedd y gronfa ehangaf bosibl o ymgynghorwyr. Dylai'r briff gynnwys crynodeb ar y dechrau a fydd yn ennyn diddordeb yn y prosiect ac yn helpu timau ymgynghorol i benderfynu a ydynt yn addas i gymryd rhan yn y prosiect. Mae cyhoeddi'r briff i'r farchnad yn gyfle i ddenu diddordeb y timau ymgynghori mwyaf priodol.

Dylid dosbarthu'r briff yn eang gan ddefnyddio rhwydweithiau sydd ar gael fel GwerthwchiGymru a'i hysbysebu drwy gyfryngau cymdeithasol a sianeli cyfathrebu eraill.

## 6.2 Y Broses Benodi

Dylai briff y prosiect fod yn ddogfen gyfeirio ganolog a ddefnyddir wrth benodi tîm ymgynghorol.

Gallai'r broses o ddewis a phenodi ymgynghorwyr gynnwys:

- Gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb gan ymgynghorwyr neu dimau unigol sydd â chymwysterau addas
- Llunio rhestr fer o dimau i'w gwahodd i dendro
- Gwahoddiadau tendro
- Gwerthuso tendrau
- Cyfweliadau tîm
- Apwyntiadau.

Argymhellir proses dau gam ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau gan y bydd yn helpu i gyfyngu ar amrywiaeth eang o ddarpar ymgeiswyr er mwyn canolbwyntio'r ymgysylltu ag ychydig o ymatebwyr. Bydd hyn yn rheoli faint o waith sydd ei angen ar y timau ymgynghorol wrth gyflwyno ceisiadau. Dylai'r deunydd sy'n ofynnol mewn datganiadau o ddiddordeb fod yn fyr ond dylai alluogi'r tîm cleientiaid i gyfyngu'r maes i restr fer addas o ymgeiswyr. Yn gyffredinol, ni ddylid gwahodd mwy na phump neu chwe thîm i ail gam y broses dendro. Bydd hyn yn sicrhau bod timau bidio'n rhoi ffocws digonol i'r broses ac y gall y tîm cleientiaid ddarparu adnoddau da ar ei chyfer a'i rheoli.

Er mwyn sicrhau canlyniad llwyddiannus i'r prosiect, dylid dewis timau ar sail eu gallu i ymateb i ofynion y cleient a'u cyflawni fel y nodir ym mriff y prosiect. Dylai pwysoliad y broses o wneud penderfyniadau ganolbwyntio ar ansawdd yn hytrach na chost fel na all y cais rhataf ennill y comisiwn os nad yw o ansawdd digonol.

Dylai'r wybodaeth sy'n ofynnol i'w chyflwyno mewn ymateb i'r briff fod yn gryno ac yn benodol er mwyn gallu cymharu ymatebwyr yn deg. Dylid gofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gofynion y briff sy'n galluogi'r tîm cleientiaid i ddeall pa mor dda y mae'r tîm ymgynghorol wedi deall gofynion y prosiect, eu hymateb creadigol cychwynnol i'r her a sut y byddant yn gweithio'n effeithlon fel tîm a chyda'r cleient i wireddu'r prosiect. Dylid nodi uchafswm tudalennau neu eiriau am ymatebion i dendrau a dylid nodi meini prawf asesu i bob cwestiwn.

**Dylai pwysoliad y broses o wneud penderfyniadau ganolbwyntio ar gost sicrwydd ansawdd**

# 7 Casgliad

Mae cyflawni prosiectau sydd wedi'u dylunio'n dda a chreu lleoedd gwych yn dasg gymhleth, beth bynnag fo cwmpas neu raddfa'r prosiect. Mae cymryd amser ar ddechrau unrhyw brosiect amgylchedd adeiledig i ystyried a datblygu strategaethau i fynd i'r afael â'r materion cymhleth y bydd y prosiect yn eu hwynebu yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau llwyddiannus.

Mae angen rhywfaint o arloesi ar bob prosiect amgylchedd adeiledig yng Nghymru i fynd i'r afael â materion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol pwysig a deddfwriaeth fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae briff prosiect yn sicrhau bod ymchwil berthnasol a gwersi o brosiectau blaenorol yn llywio'r camau datblygu a gweithredu dylunio.

Mae briff prosiect sydd wedi'i baratoi'n dda yn cynnwys dadansoddiad trylwyr o anghenion defnyddwyr a phwrpas y prosiect fel yr ysbrydoliaeth greadigol hanfodol ar gyfer dylunio a newid pwrpasol. Mae'n rhoi'r wybodaeth hanfodol sydd ei hangen ar gleientiaid i gychwyn y prosesau o ddewis a phenodi tîm, dylunio a rheoli prosiectau, yn ogystal â'r naratif prosiect sylfaenol sydd ei angen i ymgysylltu â rhanddeiliaid prosiect amrywiol.

Briff prosiect yw'r man cychwyn ysbrydoledig i bob prosiect amgylchedd adeiledig.

# Atodiad 1: Astudiaethau achos

# Astudiaeth Achos 1: Briff Uwchgynllun y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd

Bu Comisiwn Dylunio Cymru yn gweithio gyda'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd (GCRE) i baratoi briff Uwchgynllun Datblygu Safle (SDM) ar gyfer eu cyfleuster profi rheilffyrdd arfaethedig ar hen safle 475 ha gweithfeydd glo brig Nant Helen/Onllwyn.



Roedd y delweddau yn y briff yn rhoi syniad o raddfa a chyd-destun y safle

Roedd y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd wedi cwblhau astudiaethau rhagarweiniol a chynlluniau ar gyfer y cyfleuster Profi Rheilffyrdd a oedd yn cynnwys dwy ddolen brawf, un yn drac cerbydau cyflymder uchel 6.9km wedi'i drydaneiddio gyda chyflymder uchaf o 177km yr awr a'r llall yn drac profi 4.5km 65km yr awr. Yn dilyn yr astudiaethau rhagarweiniol, daeth y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd i'r casgliad, gyda gwaith cloddio addas, y gellid darparu'n foddhaol ar gyfer y ddau drac ar y safle.

Roedd y Ganolfan yn dymuno penodi tîm ymgynghorol gyda'r cymwysterau priodol, wedi'i arwain gan ddylunio, i baratoi uwchgynllun i'r safle cyfan. Ymgorffori'r cynlluniau dolen brawf rheilffyrdd a bennwyd gan yr astudiaethau peirianneg cynnar oedd yr uwchgynllun.

Paratowyd briff yr Uwchgynllun Datblygu Safle mewn pedair adran.

Roedd **rhan un** yn amlinellu gweledigaeth prosiect y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd a throsolwg o brif nodau'r prosiect.

Roedd **rhan dau** yn nodi'r cyd-destun strategol, gan gynnwys:

— Cyd-destun strategol y diwydiant rheilffyrdd

— Nodau ac amcanion y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd i'r prosiect

— Cyd-destun ac amcanion polisi Llywodraeth Cymru

— Cefndir a chyd-destun yr uwchgynllun, gan gynnwys disgrifiad cryno o'r uwchgynllun dangosol a oedd wedi pennu aliniadau safle'r trac profi.

Mae **rhan tri** yn nodi'n fanwl yr Uwchgynllun Datblygu Safle, gan gynnwys:

— Ei bwrpas

— Amlinelliad o gynllun busnes y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd

— Uchelgais y Ganolfan i ddarparu arloesedd, gan gynnwys arloesi cyfyngol

— Gofyniad am gynaliadwyedd gan gynnwys hunangynhaliaeth ynni di-garbon

— Manylion amseriad a chwmpas yr uwchgynllun i'w cwblhau


— Amlinelliad o ofynion adeiladau'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd

— Disgrifiad o chwe chynllun fframwaith i'w paratoi gan y tîm ymgynghorol, pob un yn rhoi sylw i wahanol agwedd ar yr Uwchgynllun Datblygu Safle

— Disgrifiad o'r gwasanaethau ymgynghorol sydd eu hangen

— Rhaglen ddylunio

— Rhestr o elfennau yr Uwchgynllun Datblygu Safle i'w cwblhau.




■ Cafodd gofynion allweddol yr uwchgynllun a sut mae'n berthnasol i ffrydiau gwaith eraill eu nodi mewn diagram.

Paratowyd briff penodi ymgynghorwr ar wahân hefyd, yn nodi telerau ac amodau penodi a manylion sut i ymateb i'r cyfle tendro.

Daeth proses benodi'r tîm ymgynghorol i ben mewn dau gam ar ôl hysbysebu'r cyfle penodi yn y wasg, ar y cyfryngau ac ar 'GwerthwchiGymru'. Gwahoddir datganiadau o ddiddordeb gan dimau cymwys addas sy'n ymateb i ofynion cyflwyno a hysbysebir. Cafodd y rhain eu diwygio a'u sgorio yn erbyn meini prawf a bennwyd ymlaen llaw i nodi rhestr fer o bum tîm.

Yna gwahoddwyd y timau a oedd ar y rhestr fer i gyflwyno tendrau llawn ac i ddod i gyfweliadau. Yna sgoriwyd y cyflwyniad a'r cyfweliadau, a dewiswyd tîm ar gyfer y penodiad.

Arweiniodd y broses drylwyr o baratoi briffiau a dewis tîm at gyflawni'r Uwchgynllun Datblygu Safle'n llwyddiannus yn unol â gofynion y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn erbyn rhaglen gyflawni heriol. Mae'r Uwchgynllun wedi cael cefnogaeth a chymeradwyaeth eang drwy raglen ymgynghori gydlynol gyda chymunedau lleol ac awdurdodau cynllunio.

Ar ôl sefydlu Uwchgynllun Datblygu Safle cadarn, mae'r prosiect y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn symud ymlaen i'r camau manwl o gynllunio, dylunio a gweithredu.

| Stage | Meetings and Events | Outputs | Key Dates |
|---|---|---|---|
| One | > Inception meeting<br>> 1-2 design team workshops<br>> Railway System Outline Design coordination meetings<br>> Engagement events<br>> DCFW Design Workshop | > Summary site and context analysis<br>> Review response to Rail Systems Outline Design<br>> Engagement plan<br>> Summary of initial engagement<br>> Summary of constraints and opportunities<br>> Presentation of initial vision and ideas | 1 month |
| Two | > Fortnightly design development workshops<br>> Engagement events<br>> DCFW Design Workshop | > Site-wide landscape, biodiversity, environmental and public access plan (including a series of drafts to be agreed with client input)<br>> Site-wide masterplan (including a series of drafts to be agreed with client input)<br>> Planning strategy | 4 months |

Nodwyd disgwyliadau pob cam o'r broses.


# Astudiaeth Achos 2: Cyfnewidfa Drafnidiaeth Caerffili

Wedi'i nodi fel rhan allweddol o Gynllun Creu Lleoedd Caerffili 2035, bydd prosiect arfaethedig Cyfnewidfa Drafnidiaeth Caerffili yn cynnig cyfnewidfa drafnidiaeth well a man cyrraedd i dref hanesyddol Caerffili. Bydd yn cefnogi'r gwaith o weithredu Metro De Cymru ac yn cysylltu'r dref yn well â'r rhanbarth ehangach.

Darparodd Comisiwn Dylunio Cymru gymorth cleientiaid i TrC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ddatblygu briff Cam 2/3 RIBA i ddylunio'r gyfnewidfa, yn dilyn adolygiad o astudiaethau dichonoldeb cynnar. Rhoddwyd ystyriaeth i'r cyngor canlynol wrth i'r tîm cleientiaid ddatblygu'r briff a diffinio'r broses gaffael.

### Y Briff

Roedd yn bwysig yn adran agoriadol y briff i gyfleu graddfa'r prosiect ac uchelgais y tîm cleientiaid. Roedd hyn yn galluogi timau bidio posibl i gael dealltwriaeth gynnar o'r hyn sy'n gysylltiedig ac a yw'n brosiect y byddai ganddynt ddiddordeb mewn gwneud cais amdano. Yn yr achos hwn, gellid cyfleu hyn drwy gyllideb gyffredinol y prosiect, y newid disgwyliedig yn nifer y teithwyr, a'r ffaith mai dyma'r unig gyfnewidfa bresennol yn rhanbarth de Cymru, yn ogystal â bod yn gysylltiedig â'r cynlluniau ehangach ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd.




Gosodwyd y gyfnewidfa yng nghyd-destun prosiectau eraill yng nghanol y dref.

Roedd y briff yn diffinio'r amrywiaeth o sgiliau yr oedd eu hangen ar gyfer y prosiect. Roedd yn amlwg bod angen arweinydd pensaernïol yn ogystal â sgiliau eraill ar y tîm a allai gynnwys dylunio trefol, pensaernïaeth tirwedd a pheirianneg priffyrdd, peiriannydd strwythurol, ac ymgynghorydd costau, ond mae'n bosibl na fydd angen arbenigedd mewn systemau rheilffyrdd.

Roedd diffinio'r gyllideb i gyd-fynd â chwmpas ac uchelgais y prosiect yn bwysig yn ogystal â nodi'r rhaglen gyllido ac unrhyw ofynion sy'n gysylltiedig â hyn.

Darparodd sylwadau cryno gan gleientiaid ar yr adroddiad dichonoldeb i dynnu sylw at pam na fwriwyd ymlaen â rhai opsiynau, beth mae'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio'n ei wneud yn dda, a lle mae lle i wella, gefndir defnyddiol a chyfeiriad i ddarpar gynigwyr.

Roedd y briff yn ceisio pwysleisio'r cyfle i dîm dylunio ddatblygu ymateb creadigol a oedd yn mynd i'r afael â pharamedrau'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio a bodloni awydd y cleientiaid i hyn fod yn ddatblygiad sy'n cael effaith, sy'n rhoi ymdeimlad priodol o gyrraedd Caerffili a chroeso yno, ac sy'n ymgorffori ymdeimlad o fwynhad a natur unigryw.

Darparwyd gofynion manwl lle bo hynny'n bosibl fel rhan o restr o bethau i'w cyflawni. Po fwyaf o eglurder sydd i'r timau bidio, yr hawsaf yw cymharu cyflwyniadau.

Nod y broses o wneud penderfyniadau ar gamau allweddol yn y prosiect oedd sicrhau nad oedd hyn yn achosi oedi. Dylai fod yn glir pwy sydd angen cymryd rhan neu ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses gymeradwyo ond hefyd pwy fydd yn gwneud unrhyw benderfyniadau yn y pen draw.

Ceisiai amcanion y prosiect fod yn fesuradwy, felly mae'n amlwg a ydynt yn cael eu cyflawni ai peidio. Roedd hyn yn cynnwys amcanion ar y rhaglen, fforddiadwyedd, cynaliadwyedd amgylcheddol, llif cerddwyr, gofynion aros a symud.

Amlinellwyd rhaglen y prosiect ond gwahoddwyd sylwadau arno.

Lle bo modd, cynhwyswyd dolenni i adroddiadau presennol, felly roedd yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth a'i rheoli.

Darparwyd eglurder ynghylch pa arolygon a gwybodaeth fyddai'n cael eu cyflwyno a beth mae disgwyl i'r tîm bidio ei wneud.

Cafodd ffiniau'r safle eu diffinio'n glir er mwyn egluro beth sydd wedi'i gynnwys a beth sydd ddim (fel gwaith ar ffyrdd a phalmentydd cyfagos).

Rhoddwyd cyfarwyddyd clir i sicrhau bod cynigwyr yn edrych ar werth yr adeiladau presennol ac yn nodi'n glir y rhesymeg dros eu colli, eu haddasu neu eu cadw.

Bwriadwyd i'r gofyniad gynnwys o leiaf ddwy sesiwn adolygu dyluniad Comisiwn Dylunio Cymru a chafodd y disgwyliadau ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd a chyfarfodydd â chleientiaid eu hegluro'n glir hefyd.

## Proses Gaffael

Gofynnwyd i gynigwyr brofi, herio a gwella'r cynnig dichonoldeb i gyflawni'r amcanion a nodwyd. Er bod y cam dichonoldeb wedi sefydlu rhai paramedrau a gofynion clir yn ymwneud ag 'effeithlonrwydd' ac 'effeithiolrwydd' y cynnig, roedd cryn le i wella ar 'fynegiant' yr adeilad(au).

Cafodd Camau 2 a 3 RIBA eu caffael gyda'i gilydd a helpodd i wneud y prosiect yn fwy deniadol i dimau ymgeisio ond hefyd i wneud y broses yn fwy llyfn gan fod llai o bontio rhwng timau a llai o amser yn cael ei dreulio ar gaffael ar ôl Cam 2.

Gofynnwyd i'r timau bidio nodi'n glir beth, yn eu barn nhw, oedd cwmpas y gwaith y gwnaethant ddarparu eu costau yn ei erbyn.

Roedd y broses gaffael yn cynnwys cam cyn-gymhwyso a oedd yn galluogi'r tîm cleientiaid i gyfyngu'r maes i uchafswm o chwe thîm i fynd ymlaen i'r cam nesaf. Roedd yr asesiad ar y cam hwn yn cynnwys cyfansoddiad y tîm, profiad blaenorol, ffi arfaethedig, rhaglen, a dealltwriaeth o ofynion y prosiect.

Roedd ail gam y broses yn cynnwys gofyn am syniadau datblygu dylunio gan y timau bidio ar y rhestr fer. Nodwyd briff clir i ba ddeunydd dylunio fyddai'n cael ei gyflwyno fel rhan o'r cam hwn. Roedd cyfyngu ar faint o ddeunydd a gyflwynodd timau fel 3 bwrdd A1 neu 10 dalen A3 yn helpu i reoli'r amser a dreuliwyd a galluogi gwell cymhariaeth rhwng timau. Rhoddodd y tîm cleientiaid dâl cydnabyddiaeth swm penodol i gwblhau'r cam hwn.



Trefnwyd ymweliad safle i dimau bidio, a oedd yn eu galluogi i ddeall y lleoliad a gofyn cwestiynau.

Roedd angen i'r meini prawf asesu ar gyfer y cynlluniau a gyflwynwyd fod yn glir ac yn berthnasol i ofynion y prosiect a dyheadau cleientiaid. Cafodd y sgoriau eu pwysoli'n briodol i sicrhau bod modd eu hennill ar sail ansawdd y cyflwyniadau ac nid ar sail pris yn unig.

### Canlyniad

Roedd 16 o gynigwyr cymwys o amrywiaeth o dimau lleol a chenedlaethol a oedd yn cael eu harwain gan ddylunio ar gyfer y cam cyntaf. Adolygwyd y cynigion i greu rhestr fer a symudodd ymlaen i'r cam nesaf. Trefnwyd ymweliad safle a briff wyneb yn wyneb i'r timau ar y rhestr fer. Rhoddodd hyn gyfle iddynt grwydro'r dref a lleoliad y gyfnewidfa.

Cynhaliwyd proses gyfweld gyda'r holl dimau ar y rhestr fer, gan gynnwys cyflwyno syniadau dylunio rhagarweiniol. Penodwyd Grimshaw Architects fel y partneriaid dylunio a ddewiswyd.

# Astudiaeth Achos 3: Cynllun Cyfarthfa

Darparodd Comisiwn Dylunio Cymru gymorth cleientiaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i ddatblygu uwchgynllun strategol ar gyfer trawsnewid asedau o bwysigrwydd rhyngwladol yng Nghyfarthfa ym Merthyr Tudful. Dechreuodd y Comisiwn broses o greu gweledigaeth, creu'r briff a chefnogi proses dendro gystadleuol a arweiniodd at benodi tîm amlddisgyblaethol o fri rhyngwladol sy'n cael ei arwain gan ddylunio.

### Cefndir

Y dasg sy'n mynd rhagddi yng Nghastell Cyfarthfa ym Merthyr Tudful yw trawsnewid amgueddfa ac oriel hanfodol o fod yn ased lleol i fod yn un genedlaethol. Mae gweledigaeth heddiw'n un o drawsnewid; gan weithio ar y cyd gyda natur i ddathlu ein treftadaeth er budd cenedlaethau'r dyfodol.

### Dechrau arni – y charette

Ar 21 Hydref 2017 yng Nghastell Cyfarthfa, Merthyr Tudful, dyfeisiodd a hwylusodd Comisiwn Dylunio Cymru ac Ysgol Pensaernïaeth Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, Charette a ddaeth â thros 60 o feddyliau creadigol ynghyd gan gynnwys pobl leol, penseiri, cynllunwyr, arbenigwyr treftadaeth, penseiri tirwedd ac artistiaid i helpu i lunio gweledigaeth ar gyfer dyfodol y dref a'r dirwedd o'i hamgylch. Amlygodd y canfyddiadau o'r charette bedwar o feysydd strategol integredig, a gyhoeddwyd yn y Crucible, sef yr adroddiad wnaeth ddeillio o'r charette. Roedd y pedwar maes hyn yn rhan greiddiol o friff manwl ar gyfer uwchgynllun strategol, a gafodd ei greu gan Gomisiwn Dylunio Cymru, ar ran y Cyngor.




Cyfrannodd proses greadigol at ddatblygiad y weledigaeth a'r briff.

## Y Briff

Roedd y briff yn galw ar dimau bidio i gynnwys penseiri, peirianwyr, ymgynghorwyr cost, penseiri tirwedd, cynllunwyr busnes a thîm arbenigwyr ymgysylltu â'r cyhoedd i arwain y broses uwchgynllunio. Roedd yn cynnwys elfennau allweddol i'w cyflawni ac fe'i cyhoeddwyd drwy dendr agored.

Roedd yn bwysig bod y briff yn cyfleu cyd-destun grymus i'r prosiect, ei bwysigrwydd a'i uchelgais. Roedd hyn yn caniatáu i dimau bidio posibl ddeall yn gynnar y byddai angen gweledigaeth strategol hirdymor yn seiliedig ar gynllunio busnes - nid rhestr ddymuniadau yn unig. Adlewyrchwyd uchelgais ac ansawdd disgwyliedig y prosiect wrth gyflwyno'r briff o ran ei eglurder, ei ddyluniad graffig a'i ofynion penodol.





Defnyddiwyd diagramau yn y briff i ddangos y berthynas rhwng gwahanol ddogfennau.

Roedd y briff yn diffinio'r sgiliau y byddai eu hangen a sawl cam i fynd i'r afael â nhw'n glir a'u cyflwyno yn y cynllun canlyniadol. Roedd y briff yn nodi gofynion manwl gan gynnwys yr angen am ymateb strategol, beiddgar a chreadigol. Roedd amcanion ac elfennau allweddol i'w cyflawni ar bob cam yn ofynnol gan y briff ac yn rhan o'r rhaglen, gan ganiatáu asesu cleientiaid a'u cymeradwyo ar bob cam.

Lle bo modd, cynhwyswyd dolenni i adroddiadau presennol, felly roedd yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth a'i rheoli. Darparwyd eglurder ynghylch pa arolygon a gwybodaeth fyddai'n cael eu cyflwyno a beth roedd disgwyl i'r tîm bidio ei wneud.

Bwriadwyd i'r gofyniad gynnwys adolygiadau dylunio strategol Comisiwn Dylunio Cymru ar gyfer pob cam, ynghyd ag ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfarfodydd â chleientiaid.




Roedd rhaglen a gofynion y briff wedi'u nodi'n glir.

## Proses Gaffael

Denodd y briff ddiddordeb byd-eang sylweddol a chyflwyniadau rhyngwladol. Roedd y broses gystadleuol o benodi tendr yn cynnwys cyfle i gynigwyr ofyn cwestiynau a mynd i ymweliad safle lle'r oedd y tîm cleientiaid a chymorth Comisiwn Dylunio Cymru i gyd yn bresennol i ateb cwestiynau a cherdded drwy'r safle cyn i'r tendrau ffurfiol gael eu cyflwyno a'u gwerthuso.

Gofynnwyd i'r timau bidio nodi'n glir beth, yn eu barn nhw, oedd cwmpas y gwaith y gwnaethant ddarparu eu costau yn ei erbyn.

Nodwyd gofynion clir ar gyfer deunyddiau cyflwyno gan gynnwys uchafswm geiriau a hyd y cyflwyniad fel CVs y tîm a phrosiectau dethol sy'n dangos profiad a dull gweithredu a rôl pob un yn y tîm.

Roedd y broses gaffael yn cynnwys cam cyn-gymhwyso a oedd yn galluogi'r tîm cleientiaid i gyfyngu ar y maes. Roedd y meini prawf ar bob cam yn cynnwys cyfansoddiad y tîm, profiad blaenorol, ffi arfaethedig, rhaglen, a dealltwriaeth o ofynion y prosiect.

Roedd angen i'r meini prawf asesu ar gyfer y cynlluniau a gyflwynwyd fod yn glir ac yn berthnasol i ofynion y prosiect a dyheadau cleientiaid. Cafodd y sgoriau eu pwysoli'n briodol i sicrhau y byddai modd eu hennill ar sail ansawdd y cyflwyniadau ac nid ar sail pris yn unig.

O restr hir fwy, cafodd saith o dimau rhyngwladol eu dewis ar gyfer cyfweliad gan banel arbenigwyr Comisiwn Dylunio Cymru dros gyfnod o ddeuddydd. Cynhaliwyd cyfweliadau cystadleuol wyneb yn wyneb gyda'r un fformat i bob tîm. Roedd panel cyfweld arbenigol y Comisiwn yn efelychu'r arbenigedd fyddai ei angen, gan olygu bod gan y panel cyfweld yr un ddealltwriaeth a phrofiad arbenigol â'r timau oedd yn cael eu cyfweld. Roedd swyddogion o'r Cyngor o'r adran gaffael ac adfywio hefyd yn aelodau o'r panel cyfweld.

Cafodd Ian Ritchie Architects eu cadarnhau fel y cynigwyr llwyddiannus fis Awst 2019, ac fe ddechreuon nhw astudiaeth am gyfnod o 12 mis yn cynnal arfarniad strategol o Barc Cyfarthfa a'i gyd-destun ym Merthyr Tudful a rhanbarth ehangach y cymoedd yn ne Cymru yn rhan o ymarfer uwchgynllunio. Y gwaith canlyniadol a wnaed gan Ian Ritchie Architects yw Cynllun Cyfarthfa - cynllun gweledigaethol a dogfen waith sy'n nodi llwybr i drawsnewid Castell Cyfarthfa Merthyr Tudful yn amgueddfa ac atyniad o ansawdd rhyngwladol i ymwelwyr, mewn parc cyhoeddus 100 hectar estynedig, a disgwylir iddo ddenu dros hanner miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn.

# Atodiad 2: Rhagor o waith darllen

- Cynllun Gwaith RIBA
- Llyfr Gwaith RIBA ( Argraffiad 10)
- Briefing for Buildings – A practical guide for clients and their design teams. gan Juriaan van Meel a Kjersti Bjokeng Stordal- Cyhoeddwyd gan Brief Builder- Realdania. Tegn-3.
- Managing the Brief for Better Design- gan Alastair Blyth a John Worthington. Cyhoeddwyd gan Routledg

DESIGN
COMMISSION
FOR WALES
COMISIWN
DYLUNIO
CYMRU

www.dcfw.org